CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Rhaglen grant cyfalaf Ynni Cymru 2024 i 2025: canllawiau

Sut i wneud cais am gyllid Ynni Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 8 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyn i chi ddechrau

Cefndir

Amcanion Ynni Cymru

Beth fydd yn cael ei ariannu?

Egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar (SLES)

Technolegau cymwys

Costau anghymwys

Pwy sy'n cael gwneud cais?

Caffael: gwerth am arian

Trosolwg o'r prosesau ymgeisio a dethol

Ffurflen gais a'r broses werthuso

Sut i wneud cais

Gwybodaeth ychwanegol

Cwestiynau eglurhad



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio i'ch helpu i lenwi'r **ffurflen gais am grant cyfalaf Ynni Cymru**.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi arweiniad cyffredinol yn unig ac nid oes ganddi unrhyw rym cyfreithiol. Mae'r sail gyfreithiol y bydd grantiau'n cael eu cynnig a'u talu arni wedi'i nodi yn amodau'r grant. Bydd yr amodau penodol a fydd yn berthnasol i unrhyw grant a gynigir os bydd eich cais yn llwyddiannus, yn cael eu nodi yn y Llythyr Dyfarnu Grant ffurfiol.

Os nad ydych yn siŵr am unrhyw un o amodau'r grant neu'r cymalau yn y datganiad y bydd gofyn ichi ei wneud ar ddiwedd y ffurflen gais, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adrannau **gwybodaeth ychwanegol** a **chwestiynau eglurhad** isod.

# Cyn i chi ddechrau

Cyn cyflwyno'ch cais, cyfrifoldeb yr ymgeisydd arweiniol yw sicrhau:

- bod yr holl wybodaeth yn eich cais yn gywir
- bod eich cynnig yn bodloni'r meini prawf ac felly'n gymwys
- bod pob adran o'r cais wedi'i llenwi
- os ydych yn cyflwyno cais cydweithredol, bod yr holl bartneriaid wedi llofnodi'r cais

# Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru drwy Ynni Cymru yn gweithio i helpu i ddatblygu a darparu Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) ledled Cymru. Mae cronfa o hyd at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

£10 miliwn ar gyfer grantiau cyfalaf ar gael i sefydliadau cymwys i gynnal prosiectau SLES ledled Cymru. Ar gyfer gwaith cyfalaf yn unig y mae'r arian hwn ac ni ellir ei ddefnyddio i dalu costau cyn cynnig y grant. Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau cydweithredol.

Bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso, mewn cystadleuaeth â cheisiadau eraill, ar sail y meini prawf canlynol:

- Ymarferoldeb y cynllun
- Yn gyson ag egwyddorion SLES Ynni Cymru ac amcanion ehangach
- Manteision
- Costau a Chaffael

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 5pm, 18 Hydref 2024 a rhaid cwblhau’r prosiectau erbyn 31 Mawrth 2025.

# Amcanion Ynni Cymru

Bydd y grant cyfalaf yn helpu sefydliadau cymwys i wireddu amcanion Ynni Cymru, sef:

- Cyflymu'r broses o newid i SLES ledled Cymru a'u defnyddio;
- Cynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol a ddefnyddir ac a gynhyrchir yng Nghymru;
- Gwneud prosiectau defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol mor effeithiol ac effeithlon â phosib;
- Hwyluso pontio cyfiawn i sero net, gan gadw'r manteision yng nghymunedau Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Beth fydd yn cael ei ariannu?

- Mae cyllideb o hyd at £10 miliwn o gyllid grant cyfalaf.
- Rhaid cwblhau prosiectau erbyn 31 Mawrth 2025.
- Y grant lleiaf y gellir ei roi i brosiect unigol yw £25,000.
- Y grant mwyaf y gellir ei roi i brosiect unigol yw £1m.
- Nid oes yn rhaid wrth gyllid cyfatebol, ond bydd ceisiadau sydd ag elfen o arian cyfatebol yn cael blaenoriaeth.
- Rydym am ariannu ystod amrywiol o brosiectau SLES ledled Cymru. Felly mae cyllid ar gael i ariannu prosiectau SLES newydd, neu elfennau o brosiect sy'n arwain at greu SLES.
- Yn ystod y broses werthuso, rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n brosiectau SLES amlfector (pŵer, gwres a thrafnidiaeth).
- Anogir ceisiadau cydweithredol. Ar gyfer ymgeiswyr sy'n Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau), bydd ceisiadau cydweithredol rhwng BBaChau a sefydliadau cymunedol yn cael blaenoriaeth.
- Y grant mwyaf sydd ar gael fesul sefydliad sy'n ymgeisio yw £1m i gynnal gwaith cyfalaf sy'n cyd-fynd ag egwyddorion SLES a nodir isod.
- Sylwch fod y cyllid sydd ar gael yn cydymffurfio â'r rheolau cymhorthdal (gweler yr adran Gwybodaeth Ychwanegol isod yn y canllawiau).

## Egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar (SLES)

Mae SLES yn uno gwahanol asedau cynhyrchu ynni, storio ynni, rheoli'r galw am ynni a seilwaith ynni mewn ardal, er mwyn gallu eu rhedeg yn fwy deallus a darparu buddion lleol.

- Clyfar - mae prosiectau clyfar yn defnyddio data ac offer rheoli i sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn (e.e. systemau a meddalwedd rheoli ar gyfer monitro ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a / neu fasnachu ynni).

- Lleol - bydd prosiectau'n eiddo i bobl leol (**Canllawiau i ddatblygwyr, cymunedau lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau**), ac yn cydnabod bod gan leoedd a chymunedau gwahanol yng Nghymru anghenion gwahanol, a bydd manteision yn aros yn yr ardal (e.e. perchnogaeth leol a manteision carbon, ariannol ac amgylcheddol a chymdeithasol ehangach).
- System Ynni - mae prosiectau'n defnyddio sawl math o dechnoleg (e.e. cyfuniad o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol i annog defnyddio ynni adnewyddadwy; gwresogi, oeri a dŵr twym carbon isel; cludiant allyriadau isel iawn; lleihau'r galw; cydleoli technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy; defnydd gorau posibl o gapasiti'r grid a storio ynni).

## Enghreifftiau o Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES)

Disgrifir enghreifftiau o brosiectau SLES posibl isod, i helpu ymgeiswyr i ddeall sut i roi egwyddorion SLES uchod ar waith, ond nodwch mai diben yr enghreifftiau hyn yw esbonio yn unig ac nad ydynt yn gynhwysfawr:

### Enghraifft 1

Mae adeilad (e.e. swyddfa, canolfan gymunedol, canolfan hamdden ac ati) yn gosod paneli solar (PV), batri storio, pwmp gwres ffynhonnell aer ac offer rheoli a mesuryddion clyfar. Mae'r cyfuniad o dechnolegau wedi'i gynllunio i gynhyrchu cymaint o ynni at eu dibenion eu hunain â phosibl ar y safle a lleihau allyriadau carbon yr adeilad.

### Enghraifft 2

Grŵp o BBaChau sy'n gweithio gyda sefydliad cymunedol i osod paneli solar, pympiau gwres, batris a seilwaith gwefru cerbydau trydan ym mhob rhan o barc

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

busnes bach. Mae'r cyfuniad o dechnolegau wedi'i gynllunio i gynhyrchu cymaint o ynni at eu dibenion eu hunain â phosibl ar y safle a lleihau allyriadau carbon y parc busnes.

### Enghraifft 3

Cyd-leoli system storio ynni mewn batri (BESS), cynhyrchydd trydan adnewyddadwy ategol (e.e. tyrbin gwynt) a seilwaith gwefru cerbydau trydan, i gyd ar fferm solar sy'n bod i roi hyblygrwydd i'r grid a'i gryfhau gyda'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio yn y fan a'r lle. Gall gynnig marchnadoedd refeniw newydd i'r system, diolch i'r BESS.

### Pwysig

Ym mhob un o'r enghreifftiau uchod, rhaid pwysleisio pwysigrwydd gwaith dichonoldeb a modelu trylwyr. Bydd angen tystiolaeth o ddichonoldeb a dyluniad eich prosiect a'r gwaith modelu (a rhagdybiaethau sylfaenol) a wnaed ar ei gyfer, i gefnogi'ch cais.

## Technolegau cymwys

Yn unol ag egwyddorion SLES a'r enghreifftiau uchod (yn ogystal ag enghreifftiau o brosiectau SLES sy'n gweithio), gallai'r technolegau sy'n gymwys i gael cyllid gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- Systemau clyfar fel systemau rheoli adeiladau, goleuo clyfar, systemau clyfar ar gyfer monitro'r grid a mesuryddion clyfar.
- Technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel:
  - Treulio anaerobig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

    - Hydro
    - Paneli Solar (PV) a solar thermol
    - Gwynt
- Technoleg gwresogi, oeri a dŵr twym carbon isel, fel pympiau gwres (unrhyw fath), solar thermol a rhwydweithiau gwres.
- Seilwaith cludiant allyriadau isel iawn, fel Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI).
- Technolegau storio ynni fel storio mewn batri, storio ynni thermol a storio gwres.

Yn ogystal â chost y technolegau, gellir cynnwys gwaith galluogi rhesymol - fel y rhai sy'n ymwneud â dylunio a pheirianneg, cyflenwi prosiectau, offer, gosod a chomisiynu - ar yr amod eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r technolegau sy'n cael eu gosod. Gellir cynnwys hefyd ffioedd ymgynghori a rheoli allanol sy'n gysylltiedig â gosod/adeiladu'r prosiect.

## Costau anghymwys

- Costau refeniw mewnol, fel costau staff, gweithrediadau neu gynnal a chadw.
- Mesurau nad ydynt yn arwain at neu'n helpu i arbed carbon, gan gynnwys:
    - Unrhyw offer sy'n gwresogi â thanwydd ffosil e.e. boeleri nwy, CHP nwy
    - Cael gwared ar system wresogi carbon isel sy'n dal â bywyd defnyddiol ar ôl.
- Costau gwaith adnewyddu ehangach ar adeiladau, fel gwaith ar adeiladwaith yr adeilad neu ailddodrefnu.
- Gwaith ôl-weithredol, sydd eisoes wedi dechrau neu ei gwblhau.
- Gwelliannau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- Gwaith dichonoldeb neu gysyniadol.
- Costau swyddfa, gan gynnwys rhent, dwr, nwy a thrydan, offer swyddfa.
- Costau teithio a chynhaliaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- TAW y gellir ei gael yn ôl - bydd angen i ymgeiswyr reoli'r agwedd hon ar eu llif arian yn briodol os byddant yn talu TAW mewn un flwyddyn ariannol ond yn ei gael yn ôl yn y nesaf.
- Costau wrth gefn, gan mai mater i'r ymgeisydd eu rheoli fydd unrhyw gostau uwch na'r disgwyl.

# Pwy sy'n cael gwneud cais?

Bydd y sefydliadau canlynol, sydd â'u pencadlys neu sydd â man gweithredu yng Nghymru, yn cael gneud cais:

- Sefydliadau cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol â chyfansoddiad cyfreithiol. Gall Menter Gymdeithasol fod, ymhlith eraill, yn:
    - Gwmni Buddiannau Cymunedol
    - Cwmni cyfyngedig drwy warant neu gyfranddaliadau
    - Cymdeithas Gydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol
    - Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus
    - Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
    - Elusen gofrestredig:
- **Busnesau Bach a Chanolig cyfreithlon**, sydd hefyd yn cyflogi pobl yng Nghymru
- Cyrff sector cyhoeddus

Mae croeso i sefydliadau gyflwyno ceisiadau cydweithredol. O ran ymgeiswyr sy'n BBaChau, bydd prosiectau lle mae BBaCh yn gweithio gyda sefydliad cymunedol neu fenter gymdeithasol yn cael blaenoriaeth.

Rydym yn croesawu ceisiadau cydweithredol gan sefydliadau cymwys a restrir uchod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Caffael: gwerth am arian

Os bydd angen prynu nwyddau a/neu wasanaethau arnoch i gynnal y prosiect SLES, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy a rhaid dangos eich bod (i) wedi cael y gwerth gorau o'r arian cyhoeddus, ac (ii) wedi cydymffurfio â pholisi gwrthdaro buddiannau eich sefydliad ar yr adeg berthnasol. Cawn ofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn cydymffurfio â’r gofyn hwn. Gallai tystiolaeth o’r fath fod ar ffurf tystiolaeth eich bod:

- yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth neu ganllawiau caffael sydd mewn grym o bryd i’w gilydd yr ydych chi, neu unrhyw berson sy’n cynnal busnes neu swyddogaeth o’r un natur â chi neu natur debyg ichi, yn ddarostyngedig iddynt; neu
- yn cydymffurfio â’ch polisi caffael fydd mewn grym ar yr adeg berthnasol; neu
- wedi cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y nwyddau a/neu’r gwasanaethau perthnasol.

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o’r fath inni’n gyflym ar ôl ein cais ysgrifenedig am dystiolaeth o’r fath.

## Trosolwg o'r prosesau ymgeisio a dethol

- Cam 1: Ynni Cymru yn lansio cais agored am brosiectau: 3 Medi 2024.
- Cam 2: Gwybodaeth am y grant cyfalaf ar-lein: 12 Medi 2024.
- Cam 3: Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais: 5pm, 18 Hydref 2024.
- Cam 4: Bydd ceisiadau'n cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yn gyflawn, a bod y dogfennau ategol perthnasol wedi'u hatodi.
- Cam 5: Bydd ceisiadau sy'n cydymffurfio yn cael eu gwerthuso ar sail

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gystadleuol yn erbyn y meini prawf sgorio a ddisgrifir isod.
- Cam 6: Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Llythyr Dyfarnu Grant ym mis Rhagfyr 2024 yn nodi'r grant mwyaf a gynigir, cyfnod y grant, amodau'r grant a'r amserlen dalu.
- Cam 7: Rhaid hawlio'r grant erbyn y dyddiad cau a nodir yn y Llythyr Dyfarnu gan ddefnyddio'r ffurflen hawlio briodol ac anfon y dogfennau ategol y gofynnir amdanyn nhw yn y Llythyr Dyfarnu. Bydd rheolau hawlio penodol a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod amdanynt.

# Ffurflen gais a'r broses werthuso

Mae'r ffurflen gais wedi'i rhannu'n nifer o adrannau. Mae rhai'n gofyn pa mor gymwys ydych chi, rhai yn gofyn am wybodaeth bwysig, a bydd rhai ohonynt yn cael eu defnyddio gan y panel penderfynu i asesu ceisiadau. Mae'r tabl isod yn nodi manylion pob adran. Dylech ddarllen y tabl a'r ffurflen gais gyda'i gilydd.

### Adran 1: Pwy sy'n gymwys

Cwestiynau 1 i 6: Cyfres o gwestiynau i gadarnhau bod y prosiect yn gymwys i fynd yn ei flaen i'r cam ymgeisio. Sylwer, mae C6 yn gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau fod ganddo o leiaf 3 blynedd o les ar yr adeilad/tir. Os yw ymgeisydd ynghanol ei les, mae hynny'n dderbyniol.

Pwysoliad: Pasio / Methu

### Adran 2: Manylion y cais

Cwestiynau 7 i 22: Rhowch fanylion eich sefydliad (os yw hwn yn gais ar y cyd â sefydliad arall, rhowch fanylion y sefydliad arweiniol).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pwysoliad: Dim

## Adran 3: Prif gyswllt

Cwestiynau 23 i 28: Rhowch fanylion y person a fydd yn brif bwynt cyswllt i Ynni Cymru mewn perthynas â'r prosiect.

Pwysoliad: Dim

## Adran 4: Ail gyswllt

Cwestiynau 29 i 34: Rhowch fanylion pwy y dylai Ynni Cymru gysylltu ag ef/hi os na fydd y person a enwir yn adran 3 ar gael.

Pwysoliad: Dim

## Adran 5: Swyddog awdurdodi

Cwestiynau 35 i 40: Rhowch fanylion y person o'r sefydliad arweiniol sy'n cael cymeradwyo'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r prosiect ac sy'n atebol amdano, megis swyddog Adran 151 neu Gyfarwyddwr Cyllid.

Pwysoliad: Dim

## Adran 6: Ymarferoldeb

Diben yr adran hon yw helpu Ynni Cymru i asesu lefel yr hyder y caiff y prosiect hwn ei gyflawni.

Pwysoliad: 25% o gyfanswm y marciau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cwestiwn 41: Rhowch amserlen fanwl ar gyfer cynnal y prosiect, gyda cherrig milltir clir. Lanlwythwch i adran Dogfennau Ategol y ffurflen gais

Pwysoliad: 20%.

Cwestiwn 42: Disgrifiwch rolau aelodau tîm y prosiect ac unrhyw brofiad perthnasol

Pwysoliad: 40%, dim mwy na 1,000 gair

Cwestiwn 43: Nodwch y tair risg fwyaf i gynnal y prosiect a sut y byddwch yn ceisio eu lleihau.

Pwysoliad: 40%, dim mwy na 1,000 gair

## Adran 7: Yn gyson ag Amcanion Ynni Cymru

Diben yr adran hon yw cadarnhau bod y prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Systemau Ynni Lleol Clyfar, ac asesu i ba raddau y mae'r prosiect yn helpu Ynni Cymru i wireddu ei amcanion.

Pwysoliad: 25% o gyfanswm y marciau

Cwestiwn 44: Esboniwch sut mae elfennau'r prosiect yn rhoi pob un o egwyddorion **System Ynni Lleol Glyfar** ar waith. Mae'r cwestiwn yn gofyn ichi lanlwytho tystiolaeth o waith dichonoldeb a dylunio fel dogfennau ategol. Sylwer, nid yw'r dogfennau ategol yn cyfrannu at derfyn geiriau'r adran hon.

Pwysoliad: 75%, Dim mwy na 1,500 gair

Cwestiwn 45: Nodwch sut mae'r cynnig yn gyson ag **amcanion ehangach Ynni Cymru** (gweler adran amcanion Ynni Cymru yn y Canllawiau).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pwysoliad: 25%, Dim mwy na 800 gair

## Adran 8: Manteision

Bydd yr adran hon yn helpu Ynni Cymru i ddeall y manteision y bydd pob prosiect yn eu darparu, ac yn ei alluogi i werthuso gwerth am arian gwahanol brosiectau.

Pwysoliad: 25% o gyfanswm y marciau

Cwestiwn 46: Disgrifiwch y prif fanteision y bydd y prosiect hwn yn eu darparu'n uniongyrchol, a lefel y fantais. Rhaid i fwy na dim ond yr ymgeisydd elwa ar y manteision. Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n cynnig manteision cymdeithasol (e.e. trechu anghydraddoldeb), economaidd (e.e. arbed costau ynni) ac amgylcheddol (e.e. arbed carbon) ehangach

Pwysoliad: 100%, Dim mwy na 1,400 gair

## Adran 9: Costau'r Prosiect a Chaffael

Mae'r adran hon yn gofyn i ymgeiswyr rannu manylion costau ag Ynni Cymru er mwyn ei helpu i werthuso gwerth am arian gwahanol brosiectau.

Pwysoliad: 25% o gyfanswm y marciau

Cwestiwn 47: Nodwch faint o grant Ynni Cymru sydd ei angen ar y prosiect, a pha gyfran o gost y prosiect y mae hyn yn ei gynrychioli. Bydd y wybodaeth a'r rhesymau a roddwch wrth ateb cwestiynau 50-61 yn cael eu defnyddio gan y panel gwerthuso i sgorio C47.

Pwysoliad: 34%, Dim mwy na 500 gair

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cwestiwn 48: Disgrifiwch y camau y byddwch yn eu dilyn i gaffael nwyddau a gwasanaethau, a sut mae'r camau hyn yn helpu i sicrhau gwerth am arian.

Pwysoliad: 33%, Dim mwy na 500 gair

Question 49: Disgrifiwch unrhyw ffynonellau cyllid ychwanegol rydych wedi'u sicrhau ar gyfer y prosiect, pam mae angen arian cyhoeddus a'r gwahaniaeth y bydd yr arian cyhoeddus yn ei wneud.

Pwysoliad: 33%, Dim mwy na 500 gair

Cwestiynau 50 i 64: Mae'r gyfres hon o gwestiynau yn gofyn am fanylion eich costau.

Pwysoliad: Dim

## Adran 10: Dogfennau ategol

Cwestiynau 65 i 67: Ychwanegwch dystiolaeth o'r cydsyniadau rydych wedi'u cael megis cynllunio, les adeiladau, gwaith dichonoldeb, ac unrhyw ddyfynbrisiau, profion meddal o'r farchnad, ac ati.

Pwysoliad: Dim

## Adran 11: Datganiad

Cwestiwn 68: Llofnodwch y datganiad hwn cyn ei gyflwyno, gan sicrhau bod y person a enwir yn Adran 5 wedi cymeradwyo ei gyflwyno.

Pwysoliad: Dim

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adran 12: Diogelu Data

Cwestiwn 69: Llofnodwch y datganiad hwn cyn ei gyflwyno, gan sicrhau bod y person a enwir yn Adran 5 wedi cymeradwyo ei gyflwyno.

Pwysoliad: Dim

Caiff ceisiadau eu sgorio gan ddefnyddio'r raddfa sgorio ganlynol. Bydd marc o 1 ar gyfer unrhyw gwestiwn yn golygu y caiff y panel gwerthuso roi'r gorau i farcio'r cais a'i wrthod.

### Rhagorol

Yn dangos yn glir gydag argyhoeddiad sut y caiff yr holl ofynion eu bodloni, gyda manylion ategol llawn wedi'u darparu. Yn rhoi hyder llwyr y caiff ei gynnal mewn modd rhagorol.

Sgôr: 5
A oes modd ei gyllido: Oes

### Da iawn

Yn dangos sut y caiff yr holl ofynion eu bodloni, gyda manylion ategol llawn wedi'u darparu. Mae'n rhoi hyder llwyr y caiff y gynnal mewn modd da iawn.

Sgôr: 4
A oes modd ei gyllido: Oes

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Da

Yn dangos y caiff y rhan fwyaf o'r gofynion eu bodloni, gyda rhai manylion ategol wedi'u darparu. Mân ddiffygion neu wendidau.

Sgôr: 3
A oes modd ei gyllido: Oes

### Derbyniol

Yn dangos y caiff rhai gofynion eu bodloni, gyda rhai manylion ategol wedi'u darparu. Rhai diffygion neu wendidau.

Sgôr: 2
A oes modd ei gyllido: Oes

### Gwael

Heb roi llawer o sicrwydd y caiff y gofynion eu bodloni. Heb ddarparu digon o fanylion ategol. Bernir nad yw'r ymateb yn ateb y gofynion.

Sgôr: 1
A oes modd ei gyllido: Na

## Sut i wneud cais

I weld Cais am Gyllid Cyfalaf Ynni Cymru, cliciwch ar y ddolen hon **Ynni Cymru: rhaglen ariannu grant cyfalaf 2024 i 2025**. Rhaid ei gyflwyno erbyn 5pm, 18 Hydref 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwybodaeth ychwanegol

- Mae'r canllawiau hyn yn rhoi arweiniad cyffredinol ond nid oes ganddynt rym cyfreithiol.
- Ni fydd Ynni Cymru'n atebol am unrhyw gyngor/cymorth y gall ei ddarparu.
- Ni fydd Ynni Cymru na Llywodraeth Cymru yn atebol ichi am unrhyw golled, difrod, costau, treuliau neu rwymedigaeth arall sy'n deillio o ddarparu neu mewn cysylltiad â darparu unrhyw gyngor neu gymorth o'r math hwn a/neu unrhyw ddibyniaeth a roddwch ar y cyngor neu'r cymorth hwnnw.
- Dyfernir cyllid drwy gystadleuaeth. Mae terfyn i'r cyllid sydd ar gael ac nid oes gwarant y caiff cyllid ei ddyfarnu i unrhyw sefydliad. Rhoddir yr holl ddyfarniadau yn ôl disgresiwn ac nid oes proses apelio. Ar gyfer ceisiadau gan BBaCh, rhoddir blaenoriaeth i geisiadau cydweithredol rhwng BBaChau a sefydliadau cymunedol.
- Fel darparwr arian yn y sector cyhoeddus, ni ddylai'r gronfa hon ymgymryd ag unrhyw weithgaredd all ddisodli neu ystumio'r ddarpariaeth bresennol yn y farchnad. Canolbwyntir ar fuddsoddi mewn prosiectau sy'n methu cael buddsoddiad mwy confensiynol neu a fyddai'n ei chael hi'n anodd ei gael. Hefyd, bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yng nghyd-destun ffynonellau cyllido eraill sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a gellir cyfeirio ymgeiswyr tuag at y cyllid hwnnw neu at gyllid cymysg yn ôl y gofyn.
- Nid yw Ynni Cymru na Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhai gweithgareddau sy'n debygol o arwain at ddadlau ynghylch a yw'n ddefnydd priodol o arian cyhoeddus ac felly ni fyddant yn ariannu unrhyw sefydliad neu weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Ynni Cymru neu Lywodraeth Cymru.
- Gwneir dyfarniadau ar sail eu bod yn gynlluniau cymhorthdal bach yn unol â'r canllawiau yn Atodiad 2 o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal y DU (2022). Byddwch yn ymwybodol y bydd manylion pob dyfarniad yn cael eu cyhoeddi yng Nghronfa Ddata Tryloywder Cymhorthdal y DU yn unol ag ymrwymiadau rheoli cymhorthdal Llywodraeth Cymru.
- Nid yw gweithgareddau sydd eisoes wedi'u dechrau o fewn cwmpas y grant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hwn.
- Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW - Os yw'r sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, dim ond y gwerth net y caniateir iddo ei hawlio. Felly, rhaid bod gan sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ddigon o arian i dalu am gost TAW y gwaith.
- Sefydliadau nad ydynt wedi'u cofrrestru ar gyfer TAW - Os nad yw'r sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, yna gall hawlio'r gost lawn gan gynnwys TAW oddi wrth Ynni Cymru ond ni fyddwch yn gallu hawlio'r TAW yn ôl oddi wrth HRMC.
- Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau cydweithredol.
- Uchafswm y cyllid grant y gall unrhyw sefydliad unigol ei dderbyn yw £1 miliwn (yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf perthnasol).
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses ymgeisio yn hygyrch, felly cysylltwch â ni os hoffech i ni wneud addasiadau rhesymol: YnniCymru@localpartnerships.gov.uk.

# Cwestiynau eglurhad

## Nifer y ceisiadau

### Cwestiwn: A allwch wneud cais ar gyfer sawl safle o fewn yr un cais cyn belled â'i fod rhwng £25K-£1m i gyd?

### Cwestiwn: A allwch gadarnhau os fel Awdurdod Lleol gallwn wneud cais am sawl prosiect i raglen grant cyfalaf Ynni Cymru neu a ydym yn gyfyngedig i un prosiect ar gyfer y rownd hon?

Yn dilyn y gweminar, rydym wedi penderfynu derbyn sawl cais gan yr un sefydliad. Rhaid i bob cais ymwneud ag un prosiect unigol (h.y. gall prosiect fod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn adeilad / ased unigol sy'n ffurfio SLES neu gall gynnwys sawl adeilad / ased sy'n ffurfio un SLES). Er enghraifft, os oes gan sefydliad dri phrosiect SLES sy'n ymwneud â thri adeilad / ased gwahanol bydd angen iddynt gyflwyno tri ffurflen gais.

Nodyn pwysig: Yng ngoleuni'r uchod, uchafswm y cyllid grant y gall unrhyw sefydliad unigol ei dderbyn yw £1 miliwn (yn amodol ar yr holl feini prawf perthnasol yn cael eu bodloni).

## Amserlen

### Cwestiwn: Mae hwn yn amserlen dynn iawn ar gyfer cyflawni, yn enwedig prosiect cyfalaf?

### Cwestiwn: A allwch egluro'n union sut y gallwn weithredu astudiaeth gysyniadol FEED, ei werthuso, ei fanylu a'i gaffael o fewn mis?

### Cwestiwn: Os oes angen cynllunio, sut bydd digon o amser i'w gwblhau erbyn mis Mawrth?

### Cwestiwn: A ellir symud y dyddiad cau yn ôl? Mae'r gallu i gyflwyno prosiect o safon rhwng mis Rhagfyr a diwedd mis Mawrth yn amhosib yn ymarferol. Mae hwn yn gyfle gwych gyda'r cyllid cyfalaf ac mae'n drueni ei fod yn cael ei gyfaddawdu gan amserlen o dri mis.

Mae Ynni Cymru yn deall bod y ffenestr gyflawni yn heriol i ymgeiswyr. Fodd bynnag, rhaid i'r cyllid hwn gael ei wario yn y flwyddyn ariannol bresennol. Oherwydd y cyfyngiadau amser, disgwylir y bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sy'n 'barod i'w cychwyn' ac y gellir eu cyflawni o fewn yr amser a ddyrennir, ac y bydd cymorth grant yn gwneud y gwahaniaeth i alluogi prosiect SLES sydd eisoes wedi'i ddatblygu'n dda i gael ei weithredu. Pe bai cyllid ar gael mewn blynyddoedd i ddod, byddwn yn ymdrechu i hwyluso ffenestr gyflawni ehangach.

### Cwestiwn: Os mai 18fed Hydref yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, pryd fydd y grantiau'n cael eu dyfarnu a'r prosiectau'n cychwyn?

### Cwestiwn: Os mai 18fed Hydref yw'r dyddiad cau, pryd rydym yn debygol o wybod os yw'r grantiau wedi bod yn llwyddiannus?

Gweler adran Trosolwg y Broses Ymgeisio a Dethol o'r **Ddogfen Arweiniad**. Bwriad y tîm gwerthuso yw gwneud dyfarniadau grant i brosiectau llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2024.

### Cwestiwn: Beth sy'n digwydd os nad yw wedi'i gwblhau erbyn hynny, a beth yw eich meini prawf ar gyfer 'cwblhau'?

### Cwestiwn: I'w egluro'n llawn - a yw cwblhau'r gwaith neu gwblhau'r caffael i wneud y gwaith?

Cwblhau yw gosod a chomisiynu'r System Ynni Lleol Smart a gynigiwyd gan yr ymgeisydd a ystyrir yn gymwys i gael grant. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu diweddariadau rheolaidd ar eu prosiect a chyflwyno pob ffurflen hawlio berthnasol erbyn 31ain Mawrth 2025. Bydd y broses ar gyfer cyflwyno ffurflenni hawlio wedi'i nodi yn unrhyw Lythyr Cynnig Grant.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn: Mae'r terfynau amser yn rhy dynn i ni, ydych chi'n mynd i agor rownd arall yn 2025?

Nid oes unrhyw gyllid wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Byddai Ynni Cymru yn hapus i ymgysylltu â phrosiectau SLES posib fel yr un a ddisgrifiwyd i ystyried pa gefnogaeth ar wahân i gyllid grant y gellid ei darparu.

## Cwestiwn: Pa drefniadau sydd ar waith i gario grant sydd heb ei wario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf?

## Cwestiwn: A oes tebygolrwydd o rowndiau cyllido yn y dyfodol yn 2025?

## Cwestiwn: A oes angen cwblhau'r holl waith ar gyfer y prosiect cyfan, neu dim ond ar gyfer yr elfen benodol o'r prosiect a ariennir gan y gronfa hon?

Rhaid i'r holl waith sy'n ymwneud â'r Grant Cyfalaf Ynni Cymru a gynigiwyd gan yr ymgeisydd ac a ystyriwyd yn gymwys i gael cyllid gael ei gwblhau erbyn 31ain Mawrth 2025. Mae cwblhau yn golygu gosod a chomisiynu'r System Ynni Lleol Smart a gynigiwyd gan yr ymgeisydd ac a ystyrir yn gymwys i gael grant. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu diweddariadau rheolaidd ar eu prosiect a chyflwyno pob ffurflen hawlio berthnasol erbyn 31ain Mawrth 2025.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cwestiwn: Os yw'r prosiect yn destun proses cais cynllunio a bod y dyddiad cau ar gyfer Mawrth 25 yn cael ei effeithio'n andwyol gan yr ymatebion hynny neu 3ydd parti eraill (e.e. Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu) sut fyddai hynny'n cael ei ystyried?

Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau amser, rhaid hawlio holl gyllid grant Ynni Cymru cyn 31 Mawrth 2025. Ar y sail hyn, rhagwelir y bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau yn 'barod i fynd' ac yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen a neilltuwyd. Rhaid i ymgeiswyr felly fod yn hyderus y gellir cyflawni eu prosiect erbyn 31 Mawrth 2025.

## Cymhwyster sefydliadol

### Cwestiwn: A all Cwmni Cyfyngedig sydd wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru ond sy'n rhan o PLC yn Lloegr wneud cais?

Cyfeiriwch at **'Pwy all wneud cais**?' adran o'r Nodyn Cyfarwyddyd sy'n cyfeirio at gymhwysedd sefydliadol. Mae Busnesau Bach a Chanolig **BBaChau** â chyfansoddiad cyfreithiol, sy'n cyflogi pobl yng Nghymru ac sydd â phencadlys neu sydd â chanolfan weithredu yng Nghymru, yn gymwys i wneud cais. Ceir rhagor o fanylion yn ymwneud â sut y gallai perchnogaeth gan gwmni fel CCC anghymhwyso BBaCh o'r statws hwnnw **yma**.

### Cwestiwn: A fyddai BBaCh sy'n rhedeg allan o gyfeiriad preswyl yn gymwys?

Cyfeiriwch at yr adran **'Pwy all wneud cais**?' yn y Nodyn Cyfarwyddyd gan gyfeirio at gymhwysedd sefydliadol. Os oes gan fusnes bach a chanolig ei bencadlys neu os oes ganddo ganolfan weithredu yng Nghymru, a'i fod hefyd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyflogi pobl yng Nghymru, mae’n gymwys i wneud cais. Cyfeiriwch at ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Berchnogaeth **leol a rhan-berchnogaeth ar brosiectau ynni: canllawiau | LLYWODRAETH CYMRU** y cyfeirir ato yn y disgrifiad o System Ynni Lleol Clyfar yn **Nogfen Gyfarwyddyd** y cynllun.

### Cwestiwn: A yw Cynghorau Cymuned yn gymwys?

Mae Cynghorau Cymuned yn gymwys i wneud cais. Cyfeiriwch at yr adran **'Pwy all wneud cais**?' yn y Nodiadau Canllaw mewn perthynas â chymhwyster sefydliadol am fanylion pellach.

### Cwestiwn: Fi yw Ysgrifennydd clwb cymdeithasol sy'n gwmni cyfyngedig ond sy'n gweithredu fel Cydfuddiannol. A fyddem yn gymwys i wneud cais?

Cyfeiriwch at yr adran **'Pwy all wneud cais**?' yn y Nodiadau Canllaw mewn perthynas â chymhwyster sefydliadol. Mae hefyd gwestiwn o fewn y ffurflen gais i sefydliadau fanylu ar eu prif bwrpas a'u gweithgareddau.

### Cwestiwn: A all ALl bartneru / cefnogi mwy nag un sefydliad sy'n cyflwyno eu cais unigol eu hunain?

Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau cydweithredol. Gall sefydliadau gyflwyno sawl cais cydweithredol.

### Cwestiwn: A all cwmni cyfyngedig gyda thri chyfarwyddwr wneud cais?

Cyfeiriwch at yr adran **'Pwy all wneud cais**?' yn y Nodiadau Canllaw mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

perthynas â chymhwyster sefydliadol. Rhaid i'r cwmni cyfyngedig fodloni'r meini prawf cymhwysedd sy'n ymwneud â BBaCh gan gynnwys cyflogi pobl yng Nghymru. Nid yw nifer y cyfarwyddwyr yn effeithio ar gymhwyster.

## Cymhwyster o dechnolegau

### Cwestiwn: A yw hynny’n golygu y gallem osod System Rheoli Adeiladau Tuedd newydd a all reoli PV / storfa batri a gwefru EV deallus / rheoli galw?

Cyfeiriwch at **Arweiniad Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru** ac yn enwedig at ddisgrifiad o System Ynni Lleol Deallus (SLES) ac adran Technolegau Cymwys. Mae cyllid ar gael i ariannu prosiectau SLES newydd neu ar gyfer elfennau o brosiect sy’n arwain at greu SLES. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol mai’r dyfarniad grant lleiaf yw £25,000.

### Cwestiwn: Beth am dechnolegau hydrogen?

Nid yw’r Technolegau Cymwys a restrir yn **Arweiniad Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru** yn rhestr gynhwysfawr. Ar wahân i dechnolegau a ystyrir yn anghymwys yn benodol yn yr arweiniad, byddai technolegau eraill megis electrolysu hydrogen gwyrdd i’w ddefnyddio mewn senario SLES yn gymwys ar yr amod eu bod yn bodloni holl feini prawf y cynllun.

### Cwestiwn: A ellir defnyddio’r gronfa i osod Fferm Solar newydd?

Cyfeiriwch at **Arweiniad Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru** a disgrifiad o System Ynni Lleol Smart.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cwestiwn: Rydym yn sefydliad sector cyhoeddus ac rydym ar fin cymryd drosodd adeilad lleol gan y Cyngor Sir. Mae wedi bod yn wag ers 10 mlynedd felly mae angen gwaith sylweddol. Mae toi a ffenestri newydd wedi'u cynllunio, a gallwn ariannu hynny, ond a fyddai'r gronfa'n cefnogi paneli solar, pwmp gwres, storfa batri ac ati?

Fel y nodir yn **Arweiniad Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**, ar yr amod bod yr holl feini prawf y cynllun yn cael eu bodloni, gallai'r gronfa gefnogi prosiect SLES fel hwn. Fodd bynnag, cofiwch hefyd yr adran 'Costau Anghymwys' yn yr arweiniad, sy'n nodi nad yw costau sy'n ymwneud ag adnewyddu adeiladau sylweddol yn gymwys. Gall rhai gweithgareddau effeithlonrwydd ynni sy'n hanfodol gael eu hystyried.

### Cwestiwn: A fyddai prosiectau sy'n cynhyrchu ac yn dosbarthu ynni thermol datgarbonedig yn lleol i'w ddefnyddio mewn prosiectau tyfu bwyd cymunedol o ddiddordeb?

Os bydd y prosiect yn cwrdd â'r diffiniad o System Ynni Lleol Deallus (SLES) ac yn bodloni'r holl feini prawf eraill fel y'u nodir yn **Arweiniad Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**, gallai hyn gael ei ystyried ar gyfer cyllid.

## Costau cymwys

### Cwestiwn: A fyddai adroddiadau technegol a ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gwaith cyfalaf yn gost gymwys?

Ar yr amod nad yw'r adroddiad technegol yn waith dichonoldeb neu gysyniad, fel y manylir yng **Nghanllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**, gellir ei ystyried yn gost gymwys. Ni fydd Ynni Cymru ychwaith yn ariannu gwaith ôl-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

weithredol, sydd eisoes wedi'i ddechrau neu wedi'i gwblhau.

### Cwestiwn: Er mwyn gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer, rhaid gwella effeithlonrwydd ynni'r adeiladau (inswleiddio, gwydro, rheiddiaduron newydd ac ati), a fydd y rhain yn cael eu cynnwys fel rhan o bris system ASHP? Neu onid ydynt wedi'u gorchuddio?

Fel y manylir yng **Nghanllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**, mae costau sy'n ymwneud ag adnewyddu adeiladau ehangach, megis adnewyddu a gwaith sylweddol ar adeiladwaith adeiladu yn anghymwys. Fodd bynnag, gellir ystyried gwaith effeithlonrwydd ynni a ystyrir yn hanfodol mewn perthynas â gweithredu'r Pwmp Gwres o'r Awyr.

### Cwestiwn: O ystyried cwmpas dichonoldeb, cynllunio, adeiladu, trosglwyddo ac ati ar gyfer prosiect ynni adnewyddol, a fyddai mewn sgôp i wneud cais am gyllid i dalu am ymgynghorydd i gyflwyno adroddiad? Neu i dalu am adroddiad peirianneg i gael ei gwblhau i alluogi'r SLES? Neu i dalu am drwydded ar gyfer darn o feddalwedd i gyflawni'r prosiect?

Cyfeiriwch at **Ganllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru** gan ganolbwyntio'n benodol ar yr adrannau technolegau cymwys a chostau anghymwys. Oherwydd y cyfyngiadau amser, disgwylir y bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau sydd eisoes yn 'barod i fynd' ond byddai Ynni Cymru yn hapus i ymgysylltu â phrosiectau SLES posibl ac ystyried pa gymorth ar wahân i arian grant a allai fod ar gael.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Cwestiwn: A ellir defnyddio'r cyllid i ariannu mesurau cyfalaf i glwstwr o eiddo domestig? E.G. Gwresogi cymunedol / cynhyrchu ynni / storio ynni?**

Cyfeiriwch at **Ganllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**. Rhaid i'r prosiect fodloni'r meini prawf a nodir yn y Nodyn Cyfarwyddyd, megis egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar a'r angen i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.

**Cwestiwn: Rydym yn glwb Cymunedol , yn ddelfrydol ar gyfer gosod arae solar ac ati. Ond mae gwir angen i ni osod to Cynnes yn gyntaf (i leihau ôl troed carbon) a hefyd darparu strwythur cadarn i osod y paneli ymlaen.  A allem gyfuno hyn mewn un cais ?**

Fel y manylir yng **Nghanllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**, mae costau sy'n ymwneud ag adnewyddu adeiladau ehangach, megis adnewyddu a gwaith sylweddol ar adeiladwaith adeiladu yn anghymwys. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai mathau o waith effeithlonrwydd ynni a ystyrir yn hanfodol yn cael eu hystyried.

**Cwestiwn: A ellir defnyddio cyllid i ymestyn cynllun nad yw wedi dechrau eto, cyn belled â'i fod o fewn yr amserlenni.**

Gall, cyn belled ag y gall yr ymgeisydd ddangos sut mae elfen cynllun estynedig y prosiect yn cyflawni yn erbyn pob egwyddor o System Ynni Lleol Deallus ac y gellir cwblhau'r prosiect SLES erbyn 31 Mawrth 2025.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cynllunio / caniatadau

### Cwestiwn: Gyda’r amserlenni a amlinellwyd, a ydych ond yn mynd i gymeradwyo cyllid ar gyfer cynlluniau sydd ag unrhyw gynllunio angenrheidiol a chysylltiadau grid eisoes ar waith?

### Cwestiwn: Lle bo'n berthnasol a oes angen i ganiatâd landlord/ cynllunio/adeiladu fod yn ei le ar adeg y cais?

Na, ond yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau amser, rhaid hawlio holl gyllid grant Ynni Cymru cyn 31 Mawrth 2025. Ar y sail hon, rhagwelir y bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau sy’n 'barod i fynd' ac yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen a neilltuwyd. Rhaid i ymgeiswyr felly fod yn hyderus y gellir cyflawni eu prosiect erbyn 31 Mawrth 2025.

## Cyllid

### Cwestiwn: Oes rhaid adennill y grant yn dilyn gwariant neu a fydd yn cael ei dalu cyn gwario?

Mae'r grant i'w adennill yn dilyn tystiolaeth o wariant; bydd hyn yn gofyn am gyflwyno ffurflen hawlio grant ac anfoneb contractwr cyfatebol.

### Cwestiwn: A oes unrhyw ganllawiau ar arian cyfatebol neu gyfraddau ymyrraeth grant?

Cyfeiriwch at yr adran ‘Beth fydd yn cael ei ariannu?’ yng **Nghanllaw Cronfa**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Grant Cyfalaf Ynni Cymru**. Nid yw arian cyfatebol yn ofynnol, ond bydd ceisiadau sydd ag elfen o arian cyfatebol yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny.

## Astudiaethau dichonoldeb

### Cwestiwn: A oes rhaid i astudiaethau dichonoldeb fod wedi'u disodli cyn gwneud cais i chi?

### Cwestiwn: A oes rhaid bod astudiaethau dichonoldeb wedi'u cynnal cyn gwneud cais i chi?

Fel y nodwyd yng **Nghanllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru** rhaid pwysleisio pwysigrwydd gwaith dichonoldeb trylwyr a modelu. Bydd angen tystiolaeth o ddichonoldeb, dyluniad, modelu (a thybiaethau sylfaenol) sy'n gysylltiedig â'ch prosiect i gefnogi eich cais.

## Cwestiynau ychwanegol

### Cwestiwn: Pryd fydd Pecyn Cymorth Storio Ynni Cymru ar gael?

Mae Offeryn Storio Ynni Cymru yn cael ei brofi ar hyn o bryd a bydd ar gael i'w ddefnyddio gan dîm Ynni Cymru ddiwedd mis Hydref 2024. Yn anffodus ni fydd yr offeryn ar gael i'w ddefnyddio o fewn y ffenestr ymgeisio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn: Ydy’r sleidiau o weminar heddiw ar gael?

Bydd y sleidiau a recordiad o'r gweminar ar gael yn fuan.

## Cwestiwn: A yw pobl yn gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer ceir cerbydau trydan (roedd y disgrifiad a gawsom fel rhan o brosiect SLES)

Gellir ariannu’r seilwaith gwefru Gerbyd Allyriadau Sero (ZEV) os caiff ei integreiddio o fewn SLES yn unol â **Chanllawiau Cronfa Grant Cyfalaf Ynni Cymru**. Os yw ymgeisydd am gynnwys Cerbyd Allyriadau Sero (ZEV) yn ei gais, rhaid iddo ddisgrifio sut mae'r ZEV hwnnw'n rhyngweithio ac yn integreiddio'n llawn â'r SLES arfaethedig.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-ynni-cymru-2024-i-2025-canllawiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.